AMODAU ARBENNIG

Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021

GORFFENNAF 2020

DOGFEN REOLEIDDIO

Cynnwys

1 Cyflwyniad 3

2 Amodau Cydnabod Arbennig - Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021 4

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Amodau Arbennig y disgwylir i CBAC gydymffurfio â hwy wrth Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ("GQ") yn 2021. Daeth yr Amodau yma i rym ar 15 Gorffennaf 2020 a byddant yn parhau mewn grym tan y dyddiad a bennir neu y penderfynir arno gan Gymwysterau Cymru.

At ddibenion yr Amodau yma, mae'r Cymwysterau GQ fel a ganlyn:

- Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol (UG) Cymeradwy;
- Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (THS), a
- Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig[1].

O ran yr holl Gymwysterau GQ y mae'r Amodau a nodir yn y ddogfen yn berthnasol iddynt, ac eithrio i'r graddau a nodir yn yr Amodau hynny, rhaid i CBAC hefyd gydymffurfio â:

- ein dogfen Amodau Cydnabod Safonol[2] sy'n berthnasol i bob corff dyfarnu a chymwysterau, ac
- yr holl Ddogfennau Rheoleiddio[3] perthnasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

[1] CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[2] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

[3] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/rhestr-o-ddogfennau-rheoleiddio/

2 Amodau Cydnabod Arbennig - Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021

SPCWJEC1 Rhaid i CBAC ystyried a oes angen Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ y darperir ganddo yng ngwanwyn a haf 2021, a gwneud unrhyw Addasiadau o'r fath sy'n ofynnol, yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion a nodir yn ein dogfen o'r enw 'Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru) yn 2021'.

SPCWJEC2 Pan fydd CBAC yn Addasu asesiad o dan Amod SPCWJEC1, rhaid iddo sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i -

(a) gydymffurfio â'r egwyddorion a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru ac a adolygir o bryd i'w gilydd, a

(b) dim ond pan fo gwrthdaro rhwng dwy neu fwy o'r egwyddorion hynny, sicrhau cydbwysedd rhwng yr egwyddorion hynny yn unol ag unrhyw ofynion a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru ac a adolygir o bryd i'w gilydd.

SPCWJEC3 Pan fydd CBAC yn Addasu asesiad o dan Amod SPCWJEC1, rhaid iddo sicrhau ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny -

(a) yn unol ag unrhyw ofynion, a

(b) gan ystyried unrhyw ganllawiau y gellir eu cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru a'u hadolygu o bryd i'w gilydd.

SPCWJEC4 Pan fydd CBAC yn Addasu asesiad o dan Amod SPCWJEC1, rhaid iddo ddarparu gwybodaeth glir a chywir am yr Addasiadau i Ddefnyddwyr y cymhwyster sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr Addasiadau hynny.